

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Gwenfyl Williams (Tanyfron) a Morfudd Williams (Henllan) – y ddwy ohonynt yn yr Inffirmari, a hefyd Beryl Jones (Nantglyn) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Rhuthun. Mae eraill o'n plith sydd heb fod yn dda, rhai ohonynt yn derbyn triniaeth tymor hir, ac eraill sydd wedi cael llawdriniaethau yn ddiweddar. Parhawn i gofio amdanynt hwythau hefyd gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan. Cyflwynwn y cleifion oll i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau i Sioned a Daniel Tiplady (Groes) ar enedigaeth mab, Ifan Gwilym, brawd bach i Steffan Gwyn. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach.

I ddod

- **“AWN I FETHLEM”** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan nos Lun, Rhagfyr 21ain am 7.30.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Saron **am 9.30**.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 27ain **am 11.00** yng Nghapel Cefn Berain gyda Celfyn Williams yn arwain a Rhodri Glyn yn pregethu.
- **SWPER NADOLIG Y CYFARFODYDD GANOL WYTHNOS / OEDFA'R FRO** yn Festri Llansannan, nos Fawrth, Rhagfyr 29ain am 7.30. Cysylltwch â Mair **erbyn dydd Llun, Rhagfyr 21ain** i roi eich enwau ac i drefnu'r bwyd, os gwelwch yn dda.
- **DIWRNOD DYNION** yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Ionawr 16eg rhwng 10.00 a 4.30 yng nghwmni Mike Adams, Llanelli. Cyfle i ddynion o bob oed (15-99!) i fwynhau cwmni ei gilydd dros air Duw, cael cinio da, ac os bydd y tywydd yn caniatáu, i fynd am dro. Cysylltwch â Choleg y Bala (01678) 520565 / colegybala@ebcpw.org.uk i archebu lle.

Manylion Cyswllt

Aneurin – [☎ aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – [☎ gwion@eglwysibroaled.com](mailto:gwion@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07849 591163
Sarah – [☎ sarah@eglwysibroaled.com](mailto:sarah@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – [☎ mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13^{eg} Rhagfyr 2015

Darlleniad y Dydd

Luc 1: 57-66

(BCND tud.62 / BCN: tud.57)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i chi bob un. Dwi am ddechrau'r wythnos yma hefo diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth ar Radio Cymru y Sul diwethaf. Roeddem ni'n swnio'n naturiol meddai rhai wrtha i'r wythnos yma! Ac roeddwn i'n teimlo fod pawb yn cyfrannu gyda chymysgedd o ryfeddod gwirioneddol a phwrpas. Diolch yn fawr i chi bob un, ac mae'n braf gwybod fod y gwasanaeth wedi bod yn fendith i lawer ar draws Cymru. A heddiw, dyma gyfle newydd i ddod at Dduw mewn gweddi a moliant a rhyfeddu eto at ddyfodiad Iesu i'w fyd fel plentyn bach.

Wrth ddarllen trwy'r hanes eto, y rhyfeddod sydd wedi fy nharo o'r newydd eleni ydi sylweddoli fod pob rhan o greadigaeth Duw yn rhan o'r Nadolig. Y byd anweledig i ddechrau – mae sôn yn aml yn hanes y geni am berson yr Ysbryd Glân ac am angylion sy'n 'ysbrydion gwasanaethgar' (Hebreaidd 1:14). A wedyn y byd gweledig – pobl fel Mair a Joseff; a hefyd anifeiliaid fel y praidd ar y bryn – does dim sôn am gamelod cofiwch! Ac yna'r greadigaeth sydd y tu hwnt i'n dirnadaeth ni, sef y sêr a'r cosmos eang o'n cwmpas. Un seren ymhlith y mil myrddynau! A rhyfeddod sydd uwchlaw pob rhyfeddod fod y cyfan yma yn cydsymud ac yn cael ei gynnal gan Air Duw – ac mae o yn y preseb mewn cadachau! Un Arglwydd, un Meseia, un brawd a anwyd i ni dan un seren!

Efallai y cawn ein cyhuddo o fod yn gul yn credu mewn un Ffordd at y Tad ac un Gwardwr, ond testun gorfoledd ydi sylweddoli fod yna un. Gwell o lawer ydi cael un ffordd ddiogel yn Iesu na chael mil o lwybrau ansicr ac y mae'r un seren wedi dod yn symbol i'n hoes ni o obaith a phresenoldeb Duw ynghanol tywyllwch ac anobaith – seren i oleuo'r llwybr at breseb Iesu ac at yr Un sydd yn abl i'n gwaredu. Diolch i Rhys Dafis am yr englyn pwrpasol yma a phob bendith i chi wrth i ni ganmol Iesu o'n calonnau lle bynnag y byddwn yn ystod y dydd.

Fry yn yr awyr ...

*Uwch byd fflach-bethau, uwchben goludog
oleuadau'r goeden,
yno o hyd yn dy nen
aros y mae Ei seren.*

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

Aneurin


Darlleniad Wythnos Nesaf

Mathew 2: 1-6 (BCND tud.1 / BCN: tud.1)

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 13^{eg}



Llun – 14^{eg}

- **Cyfarfod Blynyddol Blaenoriaid a Diaconiaid yr Ofalaeth** yn Festri Llansannan am 7.30.

Mercher – 16^{eg}

- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.

lau – 17^{eg}

- Bydd **Parti Nadolig Cyfarfod Plant Llansannan** a Pharti Nadolig Adran yr Urdd yn cael ei gynnal ar y cyd yn y Ganolfan rhwng 3.15-4.45.

Gwener – 18^{fed}

- **Parti Nadolig C.I.C. a C.I.C.+** yn Festri Llansannan am 7.30.

Sul nesaf – 20^{fed}

- Ni fydd **Oedfa i'r Fro** ar Ragfyr 20fed. Cynhelir yr Oedfa i'r Fro nesaf ar fore Nadolig yng Nghapel Saron **am 9.30**, ac yna yng Nghapel Cefn Berain, bore Sul, Rhagfyr 27ain am **11.00**.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 13^{eg} Bydd Ysgol Sul Cefn Meiriadog yn mynd i Gartref Yr Hen Ddeondy am 10.30 i gynnal gwasanaeth Nadolig a charolau, croeso cynnes i bawb. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa yno i'r daith am 2.00.

Sul nesaf – 20^{fed} Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig i'r teulu yn Llanfair am 11.00 a bydd Parti Nadolig i bawb yn y Neuadd Goffa i ddilyn.

Cyhoeddiadau

Llansannan

Sul yma – 13^{eg} Bydd Sarah yn arwain oedfa undebol am 10.00 pryd y byddwn yn dathlu Sul y Beibl. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion am 10.00. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 a bydd y Parti Nadolig yn dilyn yn y Festri.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 13^{eg} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Gwasanaeth Nadolig i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma – 13^{eg} Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul/yfarfer i'r plant yn brydlon am 9.15 yn Saron (SYLWCH AR Y NEWID AMSER).

Sul nesaf – 20^{fed} Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yn Saron am 11.00. Bydd y Parti Nadolig ar ôl y gwasanaeth a disgwylir y bydd Siôn Corn yn ymweld. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig ym Mheniel am 11.00 a bydd paned a sgwrs i ddilyn yn y Festri.

Henllan a Groes

Sul yma – 13^{eg} Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Sul nesaf – 20^{fed} Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Festri.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 13^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul y plant yn Llanefydd am 10.00 a'r oedolion am 11.15.

Sul nesaf – 20^{fed} Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.00 a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau Undebol Llanefydd yn y capel am 6.30. Yn yr un modd, cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Parti Nadolig i ddilyn.